

Prinder Stoc Analogau GLP-1 Chwistrelladwy a Thrwy'r Geg

Gwybodaeth i gleifion

Anfonwyd y daflen hon atoch oherwydd eich bod yn cymryd analog GLP-1 ar gyfer diabetes math 2. Mae prinder analogau GLP-1 ledled y DU.

Mae analogau GLP-1 yn cynnwys:

- Dulaglutide (Trulicity®)
- Exenatide (Byetta® neu Bydureon®)
- Semaglutide (Ozempic® neu Rybelsus®)
- Liraglutide (Victoza®)
- Lixisenatide (Lyxumia®)

Rheswm dros y prinder

Mae'r prinder oherwydd y galw cynyddol am analogau GLP-1. Nid oes ganddo unrhyw beth i'w wneud â'ch fferyllfa, practis meddyg teulu neu Wasanaeth Arbenigol Diabetes.

Bydd ein gwasanaeth diabetes arferol yn gwybod am y prinder. Bydd ganddynt ganllawiau i'ch helpu i reoli'ch diabetes tra bod yr analogau GLP-1 yn brin.

Pryd fydd y prinder drosodd

Ni ddisgwylir i'r cyflenwad o analogau GLP-1 ddychwelyd i normal tan diwedd 2024 ar y cynharaf.

Sut i reoli eich meddyginiaeth diabetes tra bod prinder

Parhewch i gymryd eich holl feddyginiaeth diabetes fel arfer. Mae hyn yn cynnwys eich analog GLP-1 os oes gennych rywffaint o hyd, neu os gallwch barhau i'w gael. Dywedwch wrth eich practis os na allwch gael eich meddyginiaeth.

Pryd y cewch adolygiad o ddiabetes

Efallai y bydd angen adolygiad cynharach arnoch ar gyfer eich diabetes. Byddwn yn gwneud ein gorau i'ch gweld cyn gynted ag y gallwn, ond mae llawer o bobl ar analogau GLP-1 y mae angen eu hadolygu. Gofynnwch am gyngor yn gynt os yw eich rheolaeth diabetes yn gwaethygu'n gyflym. Efallai y byddwn yn gofyn am brawf gwaed monitro yn gynt na'r disgwyl. Os ydych yn teimlo'n sâl, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y daflen hon.

Newidiadau i'ch triniaeth diabetes

Efallai y bydd angen newid triniaeth arnoch. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod eich apwyntiad adolygu.

Ffyrdd eraill o gadw'ch rheolaeth diabetes yn sefydlog

Cyngor GIG Cymru yw atgyfeirio pobl y mae prinder analog GLP-1 yn effeithio arnynt at raglenni addysg strwythuredig. Gallwch gael mynediad at y rhaglenni hyn ar-lein neu mewn sesiynau grŵp wyneb yn wyneb. Mae rhaglenni addysg strwythuredig yn effeithiol iawn ac yn cael eu hargymell yn gryf. Maen nhw'n eich helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i reoli'ch diabetes yn dda.

Beth i'w wneud os ydych chi'n teimlo'n sâl

Dilynwch y canllawiau hyn hyd yn oed os nad yw'r prinder analogau GLP-1 yn effeithio arnoch

Ewch i weld eich meddyg teulu cyn gynted â phosibl os oes gennych symptomau glwcos gwaed uchel, fel:

- teimlo'n sychedig iawn
- pasio dŵr yn aml
- teimlo'n wan neu'n flinedig
- golwg aneglur
- colli pwysau

Ffoniwch 111 i gael help os ydych chi'n meddwl bod gennych glwcos gwaed uchel ac:

- rydych chi'n teimlo eich bod chi'n mynd i chwydu
- rydych chi'n chwydu
- mae gennych boen stumog
- rydych chi'n anadlu'n gyflymach nag arfer
- mae eich calon yn curo'n gyflymach nag arfer
- rydych chi'n teimlo'n gysglyd neu'n ei chael hi'n anodd aros yn effro
- mae arogl ffrwythau ar eich anadl (fel melysion 'pear drop')
- rydych yn teimlo'n ddryslud neu'n cael anhawster canolbwyntio
- mae gennych lefel uchel o getonau yn eich gwaed neu wrin

Gallai'r rhain fod yn arwyddion eich bod yn mynd yn sâl iawn.

[This leaflet is also available in English.](#) Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg